## GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A494 (LLANYCIL, GWYNEDD) (GWAHARDD CERBYDAU, BEICWYR A CHERDDWYR DROS DRO) 2021

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn arfaethedig er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A494, neu gerllaw iddi, yn Llanycil, Gwynedd.

Effaith y Gorchymyn fydd gwahardd dros dro bob cerbyd, beiciwr a cherddwr rhag mynd ar y darn o'r A494 sy'n ymestyn o bwynt 50 metr o ffyrdd Dosbarth C i Parc hyd at bwynt 215 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt allanfa orllewinol cilfan Llanycil.

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r de fydd ymuno â'r A4212 yn y Bala hyd at Drawsfynydd, yna dychwelyd tua'r de ar yr A470 i ailymuno â'r A494 yn Nolgellau. I'r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r gogledd.

Disgwylir y bydd y gwaharddiadau dros dro yn dod i rym am 12:00 o'r gloch ar 2 Medi 2021 ac yn weithredol tan 31 Rhagfyr 2021. Dim ond dros nos (20:00 o'r gloch hyd 06:00 o'r gloch) y bydd y ffordd wedi ei chau, a hynny'n ysbeidiol yn unig.

Dim ond yn ystod yr amseroedd a'r dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn arfaethedig fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 6 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

## THE A494 TRUNK ROAD (LLANYCIL, GWYNEDD) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES, CYCLISTS AND PEDESTRIANS) ORDER 2021

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A494 trunk road at Llanycil, Gwynedd.

The effect of the Order will be to temporarily prohibit all vehicles, cyclists and pedestrians from proceeding on the length of the A494 that extends from a point 50 metres from Class C road to Parc to a point 215 metres south-west of the centre-point of the western exit of Llanycil layby.

The alternative route for vehicles travelling southbound will be to join the A4212 at Bala to Trawsfynydd, then return southbound on the A470 to re-join the A494 at Dolgellau. Vice versa for northbound traffic.

It is expected that the temporary prohibitions will come into force at 12:00 hours on 2 September 2021 and operate until 31 December 2021. The road closure will be in force overnight only (20:00 hours to 06:00 hours) on an intermittent basis.

Although the proposed Order is only expected to operate during the times and dates specified above it will remain valid for a maximum period of 6 months as a contingency should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government